# Hunangofiant Bill Gates (detholiad)



Yn Seattle, Washington y gwelais i olau dydd am y tro cyntaf, medden nhw, a hynny ar Hydref 28ain, 1955 yn fab i William H. Gates II a Mary.

Mae'n siŵr fy mod wedi etifeddu'r awydd i fentro ganddyn nhw, oherwydd roedd fy mam yn athrawes ac yn aelod o sawl pwyllgor tra bo fy nhad yn gyfreithiwr blaenllaw yn Seattle.

Bu gennyf ddiddordeb mewn meddalwedd erioed a dechreuais raglennu cyfrifiaduron pan oeddwn yn dair ar ddeg oed. Yn fuan wedyn sefydlais i a'm ffrind, Paul Allen, gwmni o'r enw Traf-O-Data ac fe werthon ni gyfrifiadur oedd yn gallu cyfri'r drafnidiaeth yn Seattle.

Dwy flynedd fues i ym Mhrifysgol Havard a wnes i ddim gorffen y cwrs. Gadewais yn 1975 i ffurfio Microsoft gyda Paul Allen. Daethom yn enwog am ein systemau rheoli cyfrifiaduron a'n dull diflewyn ar dafod o drafod busnes. Llwyddais i droi braich IBM i adael i Microsoft gadw hawl trwydded MS-DOS, system reoli yr oedd ar IBM ei hangen ar gyfer eu cyfrifiadur personol newydd.

Ar Dachwedd 10fed, yng ngwesty'r Plaza yn Efrog Newydd, cafodd Microsoft Windows ei lawnsio'n swyddogol. Steve Ballmer – un o'm ffrindiau yn Havard - yw prif swyddog Microsoft Windows heddiw.

Roedd yr annhegwch yn y byd wedi fy mhoeni erioed a dyna pam y penderfynais helpu pobl llai ffodus na mi. Wedi'r cyfan, mae gen i fwy na digon o arian. Felly, yn 1994 sefydlais Sefydliad William H. Gates i ganolbwyntio ar iechyd byd-eang. Dair blynedd wedyn creuais i a Melinda Sefydliad Llyfrgell Gates oedd yn gweithio i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu cael mynediad i'r we ym mhob llyfrgell yn America. Newidiwyd yr enw i Sefydliad Dysgu Gates yn 1999 i adlewyrchu ei bwyslais ar sicrhau bod myfyrwyr tlawd yn gallu paratoi am goleg ac yn gallu fforddio mynd yno. Yn 2000, i godi safon cyfathrebu ac effeithiolrwydd, unwyd y ddau grŵp i Sefydliad Bill & Melinda Gates.

Rydyn ni'n cydweithio fel gŵr a gwraig ac yn teithio ledled y byd i hyrwyddo'n gwaith i achosion da.

Ym mis Ionawr 2005 fe wnes i a Melinda fuddsoddi mwy na $28.8 biliwn yn Sefydliad Bill & Melinda Gates i ariannu gwelliannau ym meysydd iechyd ac addysg. Ers hynny rydym wedi creu partneriaid ar hyd a lled y byd i ddelio gyda phroblemau anodd: tlodi eithafol ac iechyd gwael mewn gwledydd sy'n datblygu, a methiannau systemau addysg America. Rydym yn canolbwyntio ar ychydig o achosion oherwydd dyna sut i gael fwyaf o effaith.

Warren Buffett, ffrind da i ni ac un o'n ymddiriedolwyr, ddywedodd unwaith, 'Peidiwch â mynd am y projectau saff yn unig. Cymrwch y rhai tyff ymlaen'. A dyna rydyn ni'n ei wneud.

Ein nod ydy chwalu'r rhwystrau sy'n sefyll ar ffordd pobl trwy wneud pethau fel dysgu technegau newydd er mwyn tyfu mwy o fwyd ac ennill mwy o arian mewn gwledydd tlawd; cyflwyno offer newydd i arbed a thrin afiechydon marwol; cyflwyno dulliau newydd i helpu myfyrwyr ac athrawon yn yr ystafell ddosbarth. .... Rydym yn ceisio cael gwared ar polio a malaria, sy'n fygythiad mawr ar y ffin rhwng Cambodia a Gwlad Thai. Mae'r ddau ohonom yn optimistaidd. Credwn ein bod, trwy wneud y pethau hyn – ffocysu ar ychydig o amcanion mawr a gweithio gyda'n partneriaid i gael atebion gwreiddiol, yn helpu pob person i gael y cyfle i fyw bywyd iach a llawn.